# KILVERT, ROBERT FRANCIS (1840 - 1879), clerigwr a dyddiadurwr

**Enw:** Robert Francis Kilvert
**Dyddiad geni:** 1840
**Dyddiad marw:** 1879
**Rhiant:** Robert Kilvert
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a dyddiadurwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 3 Rhagfyr 1840 yn Hardenbuish gerllaw Chippenham, lle yr oedd ei dad (Robert) yn offeiriad. Graddiodd yng Ngholeg Wadham, Rhydychen, yn 1862 (M.A. 1866). Wedi bod yn gurad i'w dad, aeth yn gurad Cleiro (sir Faesyfed) yn 1864, a bu yno hyd 1876. Yn 1876 cafodd fywoliaeth Llanarmon (S. Harmon's) yn yr un sir, ond yn 1877 cafodd fywoliaeth Bredwardine yn sir Henffordd; yno y bu farw 23 Medi 1879.

Clod mwyaf Kilvert ydyw'r dyddiadur y cychwynnodd ei sgrifennu yn Ionawr 1870, gan ddal ymlaen arno hyd Fawrth 1879. Aeth darnau ohono (Mehefin 1876-Rhagfyr 1877) ar goll, ond cyhoeddwyd detholion helaeth o'r gweddill gan William Plomer, yn dair cyfrol (1938-40). Y mae ei ddisgrifiadau o natur, ac o'r bywyd cymdeithasol, ar lannau Gwy, yn ddiddorol a gwerthfawr dros ben.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Darllen Pellach

The Kilvert Society: Kilvert's Diary

Erthygl Wicipedia: Francis Kilvert

## Gweithiau

Archifau LlGC: NLW MS 21666A: Diary of Rev. R.F. Kilvert, April-June 1870

Archifau LlGC: NLW MS 22090A: Francis Kilvert diary, 11 June-17 July 1870

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Frederick Grice Papers

Archifau LlGC: NLW MS 22275D: Letters relating to Francis Kilvert

Archifau LlGC: NLW MS 22091C: Letters concerning Francis Kilvert

VIAF: 71458497

Wikidata: Q3397712

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu